

Y broblem llifogydd The Flooding Problem

Mae ardaloedd y Rhath, Pen-y-lan a Heol Casnewydd mewn perygl o lifogydd gan Nant y Rhath ac Afon Rhymni.

Mae dros 400 o gartrefi a busnesau yn ardal y Rhath mewn perygl o lifogydd oherwydd llifogydd unwaith bob pum mlynedd (h.y. tebygolrwydd o 20% o lifogydd mewn unrhyw flwyddyn benodol). Mae hyn o ganlyniad i lifoedd afon uwch, llanw uchel, neu gyfuniad o'r ddau.

Torrodd Nant y Rhath ei glannau yn fwyaf diweddar pan gafwyd llifoedd afon uchel yn 2007 a 2009 ac ar adegau pan oedd y llanw yn uchel yn 2010 ac yn 2012.

Bydd y tebygolrwydd o lifogydd ond yn cynyddu dros amser oherwydd rhagwelir y bydd cynnydd yn lefelau'r môr a mwy o law trwm a dwys a fydd yn disgyn yn amlach o ganlyniad i'r newid yn yr hinsawdd.

The Roath, Penylan and Newport Road areas are at risk of flooding from the Roath Brook and the River Rhymney.

Over 400 homes and businesses in the Roath area are at risk of flooding from a 1 in 5 year flood event (20% chance of flooding in any given year). This is from high river flows, high tides or a combination of both.

The Roath Brook burst its banks most recently during high river flows in 2007 and 2009 and during high tidal events in 2010 and 2012.


The likelihood of flooding will only increase over time, as a rise in sea levels and more frequent and intense heavy rainfall are predicted as a result of climate change.



Gerddi Waterloo, Mehefin 2009
Waterloo Gardens June 2009



Gerddi Waterloo, Mehefin 2009
Waterloo Gardens June 2009



Bydd y cynllun yn cynyddu lefel yr amddiffyniad dros y gymuned ar gyfer un digwyddiad o lifogydd mewn 75 blwyddyn (tebygolrwydd o 1.3% o lifogydd mewn unrhyw flwyddyn benodol).

Y Dyluniad

Byddwn yn gwneud gwelliannau mewn nifer o leoliadau ar hyd y nant rhwng Gerddi Nant y Rhath ac Afon Rhymni yn Heol Casnewydd (ar bwys archfarchnad Morrisons).

Byddwn yn adeiladu waliau llifogydd ac argloddiau, ond yn meddalu'r nodweddion caled hyn gyda thirlunio trefol. Byddwn ni hefyd yn lledaenu sianel yr afon yng Ngerddi Nant y Rhath ac yn cynyddu nifer y pontydd er mwyn hwyluso llif y nant. Byddwn yn adeiladu nodweddion newydd yn yr ardal, gan gynnwys deildy newydd yng Ngerddi Waterloo a llwyfan wyluo ar gyfer hen Felin y Rhath.

Trwy ymgynghori'n barhaus gyda thrigolion yr ardal, busnesau a rhanddeiliaid, rydym wedi gwrandao ar y gymuned leol, sydd wedi ein helpu i lunio'r cynllun terfynol, gan gynnwys cael gwared â chyn lleied o goed ag y bo modd a defnyddio llai o furiau drwy gydol y cynllun.

Cais Cynllunio

Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer y cynllun ym mis Ebrill 2016 gan Gyngor Caerdydd. Gellir gweld manylion y cais cynllunio ar borth cynllunio gwefan y cyngor. Mae gennym 32 o amodau cynllunio y mae'n rhaid i ni gydymffurfio â nhw.

Newidiadau Ers yr Ymgynghoriad Cyhoeddus ym Mis Gorffennaf 2015

Ers yr ymgynghoriad ym mis Gorffennaf 2015, rydym wedi gwneud rhai newidiadau mân i'r dyluniad.

Yng Ngerddi'r Rheilffordd, yn hytrach na disodli gwrychoedd ar hyd Newminster Road, bydd ymyl o borfa a phocedi o blannu lleoledig yn cael eu gosod, ac oherwydd gofynion adeiladu, bydd tair coeden ychwanegol yn cael eu symud o'r parc.

Yng Ngerddi Waterloo, bydd deildy pren a cherrig yn cael ei osod yn y man esgynedig newydd ger y bont i gerddwyr, a bydd mwy o blanhigion yn cael eu plannu yn y parc.

Yng Ngerddi Melin y Rhath, mae dyluniad y rheilen law wedi'i newid o bren i fetel, i gyd-fynd â rheiliau Fictoraidd yr ardal.

The scheme will increase the level of protection for the community up to a 1 in 75 year flood event (1.3% chance of flooding in any given year).

The Design

We will make improvements at several locations along the brook between Roath Brook Gardens and the River Rhymney at Newport Road (near to the Morrisons supermarket).

We will build flood walls and embankments, but soften these hard features with urban landscaping. We will also widen the river channel in Roath Brook Gardens and enhance a number of bridges to increase the brook's flow capacity. We will build new features in the area including a new pergola in Waterloo Gardens (see image) and a viewing platform for the old Roath Mill.

Through continual consultation with local residents, businesses and stakeholders, we've listened to the local community who've helped us shape the final design, including minimising tree removal and reduction in walls across the scheme.

Planning Application

Planning permission was granted for the scheme in April 2016 by Cardiff Council. The details for the planning submission can be viewed on the Council's planning portal website. We have 32 planning conditions that we have to comply with.

Changes Since Public Consultation in July 2015

Since the consultation in July 2015 we have made a few small changes to the design.

In Railway Gardens, rather than replacing the hedge along Newminster Road a grass verge and localised pockets of planting will be provided, and due to construction requirements an additional 3 trees will be removed from the park.

In Waterloo Gardens a timber and stone pergola will be installed on the new raised dias area adjacent to the footbridge, and additional planting will be undertaken within the park.

In Roath Mill Gardens the design of the handrail has been changed from timber to metal, in keeping with the Victorian style railings in the area.



Deildy Gerddi Waterloo
Waterloo Gardens Pergola

Y Safle The Site

'Bydd ein horiau safle o 8am i 6pm ddydd Llun i ddydd Gwener, ac 8am i 1pm ar ddydd Sadwrn. Bydd y contractwr yn lleihau nifer y cerbydau adeiladu yn yr ardal drwy ddefnyddio gwasanaeth 'parcio a theithio' ar gyfer gweithwyr safle. Ni fydd dosbarthiadau Cerbydau Nwyddau Trwm yn digwydd yn ystod adegau prysur er mwyn lleihau tagfeydd traffig lleol.


Bydd mynediad i eiddo yn cael ei gadw ar bob adeg, yn ogystal â mynediad ar draws y nant. Bydd unrhyw gaeadau heolydd neu gyfyngiadau parcio yn cael eu cytuno gyda Chyngor Caerdydd.

Bydd ffensys a phalisau addas yn cael eu codi o amgylch ffin y safle gwaith i amddiffyn y cyhoedd a lleihau sŵn ac effaith weledol.

'Our site hours will be from 8am to 6pm Monday to Friday, and 8am to 1pm on Saturdays. The Contractor will minimise the number of construction vehicles in the area by using a 'park & ride' for site operatives. HGV deliveries will not take place during peak times to minimise local road congestion.

Access to properties will be maintained at all times, as will an access across the Brook. Any road closures or parking restrictions will be agreed with Cardiff Council.

Suitable fencing and hoarding will be erected around the works boundary to protect the public and minimise noise and visual impact.



Y Tîm a'r Rhaglen



The Team & Programme

Bydd y gwaith adeiladu yn cael ei wneud gan Dawnus ar ein rhan ni. Mae Dawnus yn un o'n cyflenwyr fframwaith ac yn gontractwyr peiranneg sifil profiadol. Bydd y rhaglen adeiladu yn rhedeg dros gyfnod o 18 mis yn ei gyfanrwydd, ac yn dechrau yng nghanol mis Ionawr.

Mae gan Dawnus Swyddog Cymunedol penodol, sef Matthew Frewer, a fydd yn bwynt cyswllt ar gyfer preswylwyr lleol drwy gydol cyfnod y gwaith adeiladu. Bydd ar gael rhwng 08:00 a 18:00 (ein horiau gwaith), a gellir cysylltu ag ef ar 07880 358541 neu drwy anfon e-bost at roath@dawnus.co.uk.

Byddwn yn hysbysu pobl ynghylch unrhyw achosion arfaethedig o gau neu wyro ffyrdd a gerddi cyn gynted ag y bo modd trwy gyfrwng ein gwefan – www.naturalresources.wales/roath

Rydym hefyd wedi penodi arolygwr adeiladu, Cooke & Arkwright, i gynnal archwiliad gweledol ar gyflwr nifer o adeiladau wrth ymyl y cynllun yn ystod y misoedd nesaf. Byddant yn cysylltu â'r bobl berthnasol yn uniongyrchol i drefnu apwyntiadau.



The construction works will be completed by Dawnus on behalf of NRW. Dawnus are one of our framework suppliers and are experienced civil engineering contractors. The construction programme is 18 months in total, with a start date in mid-January.

Dawnus have a dedicated Community Officer, Matthew Frewer, who will provide a point of contact for local residents throughout the construction works. He will be available between 08:00 and 18:00 (our working hours), and can be contacted on 07880 358541 or roath@dawnus.co.uk.

We will keep people informed of any planned road and garden closures or diversions as early as possible via our webpage and via social media.

We have also appointed a building surveyor, Cooke & Arkwright, to visually inspect the condition of a number of properties close to the scheme over the coming months. They will contact the relevant people directly to arrange appointments.

Morrisons, Arglawdd Nant y Rhath, a Sainsbury's – Adeiladu

Morrisons, Roath Brook Embankment & Sainsbury's - Construction

Adeiladu

Bydd gwaith adeiladu yn yr ardaloedd hyn yn cynnwys casgliadau bach o waith a fydd yn cael eu cynnal o amgylch gweithrediadau eraill. Mae'n bosibl y bydd llai o fannau parcio ar gael yn ystod y gwaith adeiladu.

Sainsbury's

Bydd man isel o fewn iard y gwasanaeth yn cael ei amddiffyn gan fur llifogydd bach a bydd y llwybrau troed yng nghornel y maes parcio yn cael eu codi.

Arglawdd Nant y Rhath

Mae'r nant yn rhedeg drwy sianel gul rhwng ardaloedd diwydiannol. Bydd y lan afon bresennol yn cael ei chodi hyd at 0.4m drwy gyfuniad o ddulliau adeiladu gan gynnwys pentyrru a chodi'r llawr.

Morrisons

Bydd wal fechan yn cael ei hadeiladu rhwng y ganolfan trwsio gwrthdrawiadau a Morrisons, a bydd y wal bresennol ar lan yr afon yn cael ei chodi'n lleol er mwyn darparu'r amddiffyniad llifogydd.

Rhaglen

Rydym yn rhagweld y bydd y gwaith adeiladu yn dechrau ym mis Gorffennaf 2017 ac yn cymryd oddeutu deufis i'w gwblhau.



Construction

Construction works in these areas will involve small packages of work which will phase around other operations. There may be some minor loss of parking during the works.

Sainsbury's

A low spot within the service yard is to be protected with a small floodwall and footpaths in the corner of the car park will be raised.

Roath Brook Embankment

The brook runs through a narrow channel between industrial areas. The existing river bank will be raised by up to 0.4m with a combination of construction methods including piling and ground raising.

Morrisons

A small wall will be constructed between the crash repair centre and Morrison's while the existing riverside wall will be locally raised to provide the flood defence.

Programme

We estimate that construction will commence in May 2017 and take around 4 months to complete.

Gerddi'r Rheilffordd – Adeiladu Railway Gardens – Construction

Adeiladu

Mae'r gwaith yng Ngerddi'r Rheilffordd yn cynnwys mân waith i adlinio'r sianel, adeiladu mur llifogydd newydd, a hydoedd bach ar gyfer yr argloddiau llifogydd newydd. Bydd pont newydd i gerddwyr yn cael ei gosod ar draws y nant er mwyn caniatáu mynediad i gerddwyr at y naill ochr o'r gerddi.

Gerddi'r Rheilffordd yw'r man cyntaf i gael gwaith adeiladu, gyda gwaith yng Ngerddi Waterloo i ddilyn.

Er mwyn adeiladu'n ddiogel o fewn yr ardal, bydd angen inni gau rhan o lôn sengl ar Church Terrace er mwyn caniatáu mynediad i adeiladu.

Rhaglen

Rydym yn rhagweld y bydd y gwaith adeiladu yn dechrau ym mis Chwefror 2017 ac yn cymryd oddeutu deg mis i'w gwblhau.

Construction

The works in Railway Gardens include minor realigning of the channel, the construction of a new flood wall, and short lengths of new flood embankments. A new footbridge will be installed over the brook to allow pedestrian access to either side of the gardens.

Railway Gardens is the first area to undergo construction, followed by works in Waterloo Gardens, however both gardens will be closed at the same time.


To safely build within the area we shall need to close part of a single lane on Newminster Road to allow for construction access.

Programme

We estimate that construction will commence in February 2017 and take around 10 months to complete.



Golygfa arfaethedig o fur llifogydd newydd yng Ngerddi'r Rheilffordd
Proposed view of new flood wall in Railway Gardens



Gerddi Waterloo – Adeiladu

Waterloo Gardens – Construction

Adeiladu

Mae'r gwaith yng Ngerddi Waterloo yn cynnwys mewnlenni sianel y gogledd a lledaenu sianel y de, adeiladu muriau llifogydd newydd, llwybrau troed newydd, a llwyfan esgynedig gyda deildy pren. Bydd dwy bont i gerddwyr yn cael eu gosod ar draws y nant yn lle'r rhai presennol.

Gerddi Waterloo bydd un o rannau cyntaf y cynllun i gael gwaith adeiladu a bydd rhan fawr o'r ardd ar gau yn ystod y cyfnod hwn.

Er mwyn adeiladu'n ddiogel yn yr ardal, bydd angen inni gau rhan o'r lôn sengl ar Newminster Road er mwyn caniatáu mynediad i adeiladu.

Rhaglen

Rydym yn rhagweld y bydd y gwaith adeiladu yn dechrau ym mis Chwefror 2017 ac yn cymryd oddeutu deg mis i'w gwblhau.

Construction


The works in Waterloo Gardens include the infilling of the northern channel and the widening of the southern channel, the construction of new flood walls, new footpaths, and a raised platform with a wooden pergola. Two new footbridges will be installed over the brook to replace the existing ones.

Waterloo Gardens is to be one of the first parts of the scheme to undergo construction and during this time a large part of the garden will be closed.

To safely build within the area we shall need to close part of a single lane on Church Terrace to allow for construction access.

Programme

We estimate that construction will commence in February 2017 and take around 10 months to complete.



Golygfa arfaethedig o Erddi Waterloo
Proposed view of Waterloo Gardens

Pont Heol Waterloo – Adeiladu

Waterloo Road Bridge – Construction

Adeiladu

Mae angen ailadeiladu Pont Heol Waterloo fel rhan o'r gwaith. Bydd y gwaith yn cael ei gyflawni yn ôl y camau adeiladu canlynol:

Cam 1: Symud gwasanaethau cyfleustodau o'r bont i groesfan dros dro ochr yn ochr â'r bont. Bydd un lôn ar y bont yn parhau i fod ar agor i drafnidiaeth.

Cam 2: Cau'r bont; chwalu'r hen bont; adeiladu'r bont newydd.

Cam 3: Cwblhau gwaith cladio ac adeiladu llwybrau troed, ac ail-adfer gwasanaethau cyfleustodau ar draws y bont. Bydd un lôn ar y bont yn ailagor i drafnidiaeth.

Byddwn yn gosod mynedfa i gerddwyr ar draws y nant ar bob adeg.

Ar hyn o bryd, rydym yn trafod â Chyngor Caerdydd i gytuno ar ffordd addas i ddargyfeirio traffig pan fydd y bont ar gau, a bydd y wybodaeth hon yn cael ei rhannu trwy gyfrwng ein gwefan ac ar y cyfryngau cymdeithasol cyn gynted ag y bydd ar gael.

Rhaglen

Rydym yn rhagweld y bydd y gwaith adeiladu yn dechrau ym mis Mai 2017 ac yn cymryd oddeutu wyth mis i'w gwblhau.

Construction

Waterloo Road Bridge needs to be reconstructed as part of the works. The works will be phased over the following construction sequence:

Stage 1: Move utility services from the bridge to a temporary crossing alongside the bridge. One lane on the bridge will remain open to traffic.


Stage 2: Close the bridge; demolish the old bridge; construct the new bridge.

Stage 3: Complete cladding works and footpath construction, and re-instate utility services across the bridge. One lane on the bridge will re-open to traffic.

We will maintain a means of pedestrian access across the brook at all times.

Programme

We estimate that construction will commence in May 2017 and take around 8 months to complete.



Adran yn dangos y bont arfaethedig ar Heol Waterloo
Section showing the proposed bridge on Waterloo Road



Gerddi Melin y Rhath – Adeiladu Roath Mill Gardens – Construction

Adeiladu

Mae'r gwaith yng Ngerddi Nant y Rhath yn cynnwys lledaenu sianel yr afon i ganiatáu ar gyfer mwy o lif, a chodi mur llifogydd newydd.

Bydd y gwaith adeiladu yng Ngerddi Melin y Rhath yn cael ei rannu rhwng dau gam: bydd y gwaith ar bwys Pont Heol Waterloo yn digwydd yn agos at ddechrau'r prosiect, a bydd adeiladu gerllaw Heol Blenheim yn cael ei gwblhau tuag at ddiwedd y prosiect. Bydd y camau hyn yn cael eu rhoi ar waith fesul cam er mwyn caniatáu mynediad rhannol at y gerddi drwy gydol y prosiect.

Er mwyn cynnal y gwaith adeiladu ar bwys Heol Blenheim yn ddiogel, bydd angen inni gau lôn sengl ar Heol Westville er mwyn caniatáu mynediad i adeiladu, ac ar gyfer y gwaith ar bwys Pont Heol Waterloo, bydd angen inni gau lôn sengl ar Heol Sandringham.

Rhaglen

Rydym yn rhagweld y bydd y gwaith adeiladu ar bwys Heol Blenheim yn dechrau ym mis Ionawr 2018 ac yn cymryd oddeutu tri mis i'w gwblhau, a bydd y gwaith ar bwys Pont Heol Waterloo yn dechrau ym mis Chwefror 2017 ac yn cymryd oddeutu deg mis i'w gwblhau.

Construction



The works in Roath Mill Gardens include widening the river channel to allow more flow to be conveyed, and constructing a new flood wall.

The construction works at Roath Mill Gardens are to be split into two phases; works near Waterloo Road Bridge will take place near the start of the project and construction near Blenheim Road will be completed towards the end of the project. The phasing of these stages has been implemented to allow partial access to the gardens throughout the project.

To safely build the works near Blenheim Road we shall need to close a single lane on Westville Road to allow for construction access, and for the works near Waterloo Road Bridge we will need to close a single lane on Sandringham Road.

Programme

We estimate that construction of the works near Blenheim Road will commence in January 2018 and take around 3 months to complete, and that works near Waterloo Road bridge will commence in February 2017 and take around 10 months to complete.



Gerddi Nant y Rhath – Adeiladu

Roath Brook Gardens – Construction

Adeiladu

Mae'r gwaith yng Ngerddi Nant y Rhath yn cynnwys lledaenu sianel yr afon i ganiatáu ar gyfer mwy o lif, a chodi rhan o'r arglawdd presennol.

Bydd y gwaith adeiladu yng Ngerddi Nant y Rhath yn cael ei gwblhau tuag at ddiwedd y cynllun cyffredinol, ac yn dechrau yr un pryd â'r gwaith yng Ngerddi Melin y Rhath.

Er mwyn adeiladu'n ddiogel yn yr ardal, bydd angen inni gau lôn sengl yn Heol Sandringham i ganiatáu mynediad i adeiladu. mynediad.

Rhaglen

Rydym yn rhagweld y bydd y gwaith adeiladu yn dechrau ym mis Ionawr 2018 ac yn cymryd oddeutu tri mis i'w gwblhau.

Construction

The works in Roath Brook Gardens include widening the river channel to allow more flow to be conveyed, and raising part of the existing flood embankment.

The Roath Brook Gardens construction works will be completed towards the end of the overall scheme and will begin simultaneously with works in Roath Mill Gardens.


To safely build within the area we shall need to close a single lane on Sandringham Road to allow for construction access.

Programme

We estimate that construction will commence in January 2018 and take around 3 months to complete.



Golygfa arfaethedig o Nant y Rhath
Proposed view of Roath Brook



Allwedd Key

- ↔ Mynediad / Allanfa | Access / Exit
- Ffin y safle | Site boundary
- Nant y Rhath | Roath Brook

Plannu, Tirlunio a'r Amgylchedd Planting and Landscaping

Er mwyn sicrhau'r amddiffyniad angenrheidiol rhag llifogydd ac adeiladu argloddiau a muriau llifogydd newydd, rhaid cael gwared ar rywfaint o goed ar hyd glannau Nant y Rhath.

Comisiynwyd arolwg gennym yn y gorffennol ar yr holl goed a geir yn y pedair gardd a nodwyd pa goed y dylid eu torri i lawr, pa goed a fydd yn cael eu gwarchod, a ble i blannu coed newydd. Deallwn y pryder sydd gan y gymuned am goed yr ardal, felly rydym wedi canolbwyntio ar y dylunio er mwyn lleihau'r effeithiau hyn (er enghraifft, trwy osgoi torri coed o amgylch ymylon ffiniau'r parc).

Byddwn yn cael gwared â 145 o goed trwy'r pedair gardd a byddwn yn ailblannu 105 o goed. O blith y coed y byddwn yn cael gwared â hwy: mae 106 wedi'u dosbarthu fel coed ansawdd gwael, coed sy'n darvoud, coed marw neu goed ifanc; mae 39 wedi'u dosbarthu fel coed llawndwff o ansawdd da neu well, sy'n gallu gwneud cyfraniad sylweddol am o leiaf 20 mlynedd.

Bydd dros 100 o goed ychwanegol yn cael eu plannu mewn parciau eraill yng Nghaerdydd.

Ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau, bydd y gerddi'n cael eu hailagor yn seiliedig ar y strategaeth ganlynol:

Bydd amrywiaeth o sbesimenau coed yn cael eu plannu er mwyn ychwanegu at ac atgyfnerthu'r casgliad o goed sydd eisoes yn bodoli.

Ymylon addurnol wedi'u lleoli wrth fynedfa'r parc ac o fewn ardal y teras a godwyd i gyd-fynd gyda'r ymylon sydd eisoes yn bodoli ar ochrau'r parc.

Plannu llwyni brodorol ac estron i feddalu ymddangosiad y mur llifogydd newydd, darparu cynefin ac ychwanegu diddordeb.



Plannu planhigion ymylol o fewn lleoliadau penodol.

Hadu glannau'r afon i helpu i adfer planhigion glannau'r afon brodorol.

Bydd parthau amddiffyn gwreiddiau'n cael eu gosod yn ystod y broses o dynnu'r coed er mwyn amddiffyn y coed sy'n weddill.

Mae arolygon ecolegol wedi cael eu cynnal a oedd yn dangos y potensial ar gyfer presenoldeb ystumod, adar sy'n nythu, pathewod, ymlusgiaid a dyfrgwn yn yr ardal. Bydd cyfres o fesurau'n cael ei chyflwyno i amddiffyn a gwella'r bywyd gwylt hwn, a'r rhai sydd yn y nant, yn ystod ac ar ôl y gwaith. Rydym hefyd wedi penodi goruchwyliwr amgylcheddol i fonitro ac amddiffyn bywyd gwylt yn ystod y gwaith adeiladu.

Bydd archeolegydd yn bresennol i oruchwylio a chofnodi cloddiadau yn ardal hen Felin y Rhath.



To achieve the required flood protection and construct the new flood walls and embankments, the removal of some trees along the banks of Roath Brook is required.

We previously commissioned a survey of all the trees in the four gardens and identified which trees should be removed, which trees we will protect, and where to plant new trees. We understand the concern the community has for the trees in the area, so we have focused the design efforts to minimise these impacts (for example, by avoiding removing trees around the edge of the park boundaries).

We will be removing 145 trees across the four gardens and will replant 105 trees. Of these trees for removal: 106 are categorised as low quality, decaying, dead, or young trees; 39 are categorised as mature, good quality or high quality, and able to make a significant contribution for at least 20 years.

Over 100 extra trees will be planted in other Cardiff parks.

Upon completion the gardens will be reinstated based on the following strategy:

A variety of tree specimens will be planted to add to and reinforce the existing tree collection.

Ornamental borders located at the entrance to the park and within the raised terrace area to match the existing borders along the edges of the park.

Native and exotic shrub planting to soften the appearance of the new flood wall, provide habitat and add interest.

Marginal vegetation planting within selected locations.

Seeding of river banks to help reinstate native riverbank vegetation.

Root protection zones will be set-up during the tree removal process to protect the remaining trees. Ecological surveys have been undertaken which showed the potential for the presence of bats, nesting birds, dormice, reptiles and otters in the area. A series of measures will be introduced to protect and enhance this wildlife, and that of the Brook, during and after the works. We have also appointed an environmental supervisor to monitor and protect wildlife during construction.

An archaeologist will be present to supervise and record excavations in the area of the old Roath mill.

Gweithio gyda'r Gymuned Working with the Community

Banc Coed Cymunedol

Fel Cyfoeth Naturiol Cymru, ein nod yw cynnal cyfraniad positif i'r gymuned. Rydym wrthi'n ystyried plannu coed ychwanegol ym mharcdiroedd ledled Caerdydd a thrwy weithio gydag ysgol leol, gan gynnig coed ifanc i blant er mwyn eu plannu gartref. Mae hyn yn caniatáu inni gynyddu'r nifer o goed sy'n cael eu plannu i wneud iawn am y coed sydd wedi'u clirio ac nad ydynt yn gallu cael eu hailosod ym mharcdir presennol y Rhath.

Ymgysylltu ag Ysgolion

Mae gan Dawnus hanes hir o weithio ag ysgolion lleol a chyfrannu'n gadarnhaol at addysg ar bob lefel. Byddant yn ceisio ymgysylltu ag ysgolion cynradd a chyfun i drefnu digwyddiadau a chyfluoedd a fydd yn cyd-fynd â'u cwricwlwm trwy amrywiaeth o ddigwyddiadau gyrfaoedd, digwyddiadau sgiliau, ymweliadau â safleoedd, ymweliadau ag ysgolion, a lleoliadau profiad gwaith. Mae ganddynt 16 o Lysgenhadon Adeiladu hyfforddedig a fydd yn cynorthwyo'r timau prosiect gyda'r digwyddiadau hyn.

Cyfluoedd Cyflogaeth

Mae Dawnus yn un o gyflogwyr mwyaf y sector adeiladu yng Nghymru, ac maent yn cyflogi dros 500 o bobl yng Nghymru, gydag ymrwymiad hirdymor i economi Cymru. Bydd y prosiect yn helpu i greu cyfluoedd hyfforddiant a chyflogaeth ar gyfer pobl leol, a bydd Dawnus yn gweithio gyda nhw i ddatblygu gyrfa hirdymor yn y diwydiant adeiladu.

Arddangosfa Gelf

Fel rhan o ymrwymiad Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflawni amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), byddwn yn ymgorffori celfyddyd gyhoeddus i gynllun y Rhath o fewn Gerddi Melin y Rhath. Rydym wedi penodi artist o Gymru, Rubin Eynon, i weithio gyda'r gymuned i ddatblygu darn addas o gelf. Os hoffech chi weld sut mae gwaith Rubin yn mynd rhagddo, ac i gymryd rhan, ewch i'r dudalen benodol hon ar Facebook: facebook.com/Millgardensculpture.



Rhagor o Wybodaeth

Ccysylltu â ni:

Swyddog Cymunedol, Matthew Frewer - 07880 358541
Roath@dawnus.co.uk

Roath@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Ewch i'n gwefan - www.cyfoethnaturiol.cymru/yrhath
neu ein sianelau cyfryngau cymdeithasol:

- Twitter: @natreswales
- Facebook: NatResWales

More Information

Contact us:

Community Officer, Matthew Frewer - 07880 358541
Roath@dawnus.co.uk

Roath@naturalresourceswales.gov.uk

Visit our webpage - www.naturalresources.wales/roath
or via social media:

- Twitter: @natreswales
- Facebook: NatResWales

Community Tree Bank

As NRW, our objective is to maintain a positive contribution to the community. We are currently looking to plant additional trees, both in parkland throughout Cardiff and through working with a local school, offering tree saplings to school children for home planting. This allows us to increase the overall number of planting to offset those which are removed and cannot be re-established within the existing Roath parkland.

School Engagement

Dawnus has a long history of working with local schools and positively contributing to education at all levels. They will look to engage with local primary and comprehensive schools to arrange events and opportunities to integrate with their curriculum through a mixture of career events, skills events, site visits, school visits and work experience placements. They have 16 trained Construction Ambassadors who will assist the project teams with these events.

Employment Opportunities

Dawnus are one of the largest Welsh based construction sector employers, employing over 500 people in Wales, with a long term commitment to the Welsh economy. This project will help create training and employment opportunities for local people, who Dawnus will work with to develop a long-term career in the construction industry.

Art Installation

As part of NRW's commitment to meeting the goals of the 'Well-being of Future Generations (Wales) Act', we will be integrating public art into the Roath scheme within Roath Mill Gardens. We have recently appointed Welsh artist, Rubin Eynon, to work with the community to develop a suitable piece of art. If you'd like to see how Rubin's proposals are progressing and to get involved, please visit this dedicated Facebook page: facebook.com/Millgardensculpture.